# Adroddiad Arolygu

**South Wales Supported Living**

**Leonard Cheshire Disability**
**Tŷ Cwm**
**Lôn Tŷ Cwm**
**Caerfyrddin**
**SA31 3GA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19 Mai 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# South Wales Supported Living

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol. Dywedodd y bobl ac aelodau o'u teuluoedd wrthym eu bod yn cael gofal da gan weithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Dywedodd pob unigolyn y gwnaethom siarad ag ef fod ei weithwyr gofal bob amser yn hapus ac yn barod i'w helpu. Mae rhai pobl o'r farn y bu llawer o newidiadau staff dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i'r pandemig, ond mae'r tîm staff yn frwdfrydig ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr uwch-aelodau o'r staff. Maent yn cael hyfforddiant rheolaidd sy'n berthnasol i'w rolau. Mae systemau clir ar waith sy'n monitro ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael, ac mae sianeli cyfathrebu da ym mhob rhan o'r sefydliad.

## Llesiant

Yn gyffredinol, mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn bob dydd gyda'r unigolyn sy'n eu cefnogi ar y pryd, ac yn eu hadolygiadau gofal. Mae aelodau o'u teuluoedd hefyd yn fodlon ar y cymorth y mae eu perthnasau yn ei gael. Mae cipluniau yn cynnwys gwybodaeth am y dull cyfathrebu a ffefrir gan bob unigolyn er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn ymwybodol o ddymuniadau'r bobl bob amser. Mae'r gweithwyr gofal yn ddibynadwy ac ar gael i'r bobl ar amseroedd y cytunwyd arnynt. Bu rhai newidiadau staff dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae'r bobl yn derbyn mai'r pandemig oedd yn gyfrifol am hyn at ei gilydd. Mae'r bobl yn obeithiol bod y gwaethaf o'r pandemig drosodd erbyn hyn ac yn edrych ymlaen at gael tîm staff mwy sefydlog.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Caiff y bobl a/neu eu cynrychiolwyr eu gwahodd i fod yn rhan o'r penderfyniadau am eu gofal a'u llesiant. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu bob tri mis er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfredol ac adlewyrchu anghenion yr unigolyn bob amser. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus i gael eu cynnwys. Dywedodd un unigolyn, *“We had a small meeting. It was just right for me because I don’t like too much fuss”* (Cawsom gyfarfod bach. Roedd hynny'n berffaith i mi am nad wyf yn hoffi gormod o ffwdan). Dywedodd un o'r perthnasau wrthym, *“It’s nice to be part of things, to know what’s going on”* (Mae'n braf cael bod yn rhan o bethau, ac i wybod beth sy'n digwydd).

Mae'r bobl a'u perthnasau yn teimlo bod eu gweithwyr gofal yn wybodus, yn gwybod beth maent yn ei wneud ac yn eu cefnogi fel y dymunant. Mae'r gweithwyr gofal yn cael yr hyfforddiant diweddaraf yn rheolaidd: mae'r perthnasau'n dweud bod hyn i'w weld yn amlwg yn y ffordd y maent yn cefnogi aelodau o'u teuluoedd. Dywedodd un o'r perthnasau wrthym, *“We think x gets really good care because the carers know what they’re doing”* (Rydym o'r farn bod x yn cael gofal gwirioneddol dda am fod y gofalwyr yn gwybod beth maent yn ei wneud). Dywedodd un o'r bobl sy'n cael cymorth fod ei weithwyr gofal yn *“brilliant”* (gwych) ac yn *“really funny”* (doniol iawn). Roedd unigolyn arall yn canmol ei weithwyr gofal gan ychwanegu, *“I look forward to seeing them every day. They keep me smiling”* (Rwy'n edrych ymlaen at eu gweld bob dydd. Maent yn rhoi gwen ar fy wyneb bob amser). Dywedodd y bobl wrthym hefyd nad yw eu gweithwyr gofal yn rhuthro, a'u bod yn rhoi digon o amser iddynt wneud pethau pan fyddant gyda nhw.

## Arwain a Rheoli

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Mae matrics hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r tîm staff wedi cael yr hyfforddiant hanfodol diweddaraf, a bod rhai wedi cael hyfforddiant sy'n benodol i'r bobl y maent yn eu cefnogi, er enghraifft, hyfforddiant ar ddementia, epilepsi, codi a chario, maeth a thagu. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal fod yr hyfforddiant yn *"really good and all useful"* (yn dda iawn ac yn ddefnyddiol). Yn ogystal, mae cyflogeion newydd yn cael yr holl hyfforddiant hanfodol yn ystod eu sesiynau sefydlu.

Caiff cyfarfodydd goruchwylio unigol rheolaidd ac arfarniadau blynyddol eu trefnu ar gyfer pob gweithiwr gofal. Cadarnhaodd dau weithiwr gofal fod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn unol â'r trefniadau a dywedodd gweithiwr gofal arall eu bod yn ddefnyddiol, gan ychwanegu, *"We always meet up to talk about what's going well or not. All good to know"* (Rydym bob amser yn cwrdd i siarad am yr hyn sy'n mynd yn dda neu beidio. Mae'n dda gwybod hyn i gyd). Dywedodd gweithiwr gofal arall wrthym, *"The manager is always there when we need them"* (Mae'r rheolwr bob amser yno pan fydd ei angen arnom).

Mae polisïau'r darparwr yn gyfredol. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau a oedd wedi cael eu diweddaru i ystyried unrhyw newidiadau yn y sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae systemau clir ar waith sy'n monitro ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael ac mae sianeli cyfathrebu da ym mhob rhan o'r sefydliad.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|
| Nid yw'r polisïau yn gyfredol | Rheoliad 79 |
| Ni chaiff y staff eu cefnogi'n gyson nac yn ddigonol gyda hyfforddiant a goruchwyliaeth. | Rheoliad 36(2)(a) |
| Nid yw'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cymryd rhan nac yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r adolygiad bob tri mis o gynlluniau personol unigolyn. | Rheoliad |
| Ni chaiff hysbysiadau eu cwblhau na'u cyflwyno fel sy'n ofynnol bob amser. | Rheoliad |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/06/2021